



FOR IMMEDIATE RELEASE

Grant wedi'i ddyfarnu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer Ffilm ar Arweinydd Du Anghofiedig Brynmawr



**Roy Francis yn chwarae rygbi
Credyd Delwedd, Amgueddfa a Chymdeithas Hanesyddol Brynmawr**

Heddiw, mae Amgueddfa a Chymdeithas Hanesyddol Brynmawr wedi cyhoeddi grant o £21,960 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i gynhyrchu ffilm addysgol fer sy'n dathlu bywyd a chyflawniadau Roy Francis – arweinydd arloesol o hil-gymysg a fagwyd ym Mrynmawr yn ystod y Dirwasgiad Mawr.



Bydd y ffilm yn archwilio stori ryfeddol Roy Francis wrth gadw a rhannu treftadaeth Brynmawr yn ystod y cyfnod heriol hwn yn ei hanes.

Wedi'i anelu'n bennaf at bobl ifanc, bydd y prosiect yn eu cynnwys yn uniongyrchol wrth lunio'r ffilm trwy gyfres o weithdai. Bydd cyfranogwyr yn helpu i benderfynu ar arddull a fformat animeiddio, gan sicrhau bod y ffilm derfynol yn atseinio gyda'i chynulleidfa arfaethedig. Bydd y ffilm hefyd yn cefnogi dysgu yn ystod Mis Hanes Pobl Dduon.

Dywedodd Andrew White, Cyfarwyddwr Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol:

"Mae stori Roy Francis yn rhan bwysig ac ysbrydoledig o dreftadaeth Cymru, wedi'i gwreiddio yng nghymuned Brynmawr.

Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, bydd y prosiect hwn yn dod â'i etifeddiaeth yn fyw i genedlaethau newydd wrth helpu i warchod a rhannu hanes Brynmawr a'r bobl a'i siapiodd."

Bydd y prosiect yn dod â gwahanol genedlaethau o gymuned Brynmawr at ei gilydd. Bydd gwirfoddolwyr yr Amgueddfa, grwpiau pensiynwyr lleol ac aelodau Clwb Rotari Brynmawr yn cyfrannu at weithdai i helpu i sicrhau cywirdeb hanesyddol. Bydd cyfranogwyr ifanc hefyd yn cael eu hannog i gyfweled â thrigolion hŷn, gan ddal gwybodaeth ac atgofion uniongyrchol gwerthfawr.



Hen Frynawr, Sgwâr y Farchnad
Credyd Delwedd - Amgueddfa a Chymdeithas Hanesyddol Brynmawr

Ochr yn ochr ag adrodd stori Roy Francis, bydd y ffilm yn tynnu sylw at hanes ehangach Brynmawr. O'i ddechreuadau gwledig fel grŵp bach o ffermydd, trwy dwf diwydiannol, i galedi y 1920au. Bydd hefyd yn archwilio'r "Arbrawf Brynmawr" dan arweiniad y Crynwyr, a gyflwynodd gyfres o fentrau sydd wedi'u cynllunio i ddod â gobaith a chyfleoedd i'r gymuned yn ystod cyfnod o argyfwng economaidd.

Mae'r prosiect hwn hefyd yn cefnogi uchelgais ehangach yr Amgueddfa i ddigido a rhannu treftadaeth Brynmawr gyda chenedlaethau'r dyfodol.

Meddai John Hill, Trysorydd - Amgueddfa a Chymdeithas Hanesyddol Brynmawr

"Rydym wrth ein bodd ein bod wedi derbyn y gefnogaeth hon gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol rydym yn gallu adrodd stori anhygoel dyn a fagwyd ym Mrynawr ac a ddaeth yn Chwedl ym myd Rygbi'r Gynghrair. Yr un mor bwysig yw y gallwn warchod treftadaeth Brynmawr."



Gan mai ychydig iawn o ffilmiau sydd wedi goroesi o Roy Francis neu Brynmawr yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Amgueddfa'n awyddus i glywed gan unrhyw un sydd â deunyddiau perthnasol. Bydd y gweithdai yn agored i bawb, ac anogir unrhyw un sydd â diddordeb mewn cymryd rhan i gysylltu â ni drwy wefan yr Amgueddfa.

Diwedd

Nodiadau i olygyddion

Ynglŷn â Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Ein gweledigaeth yw i dreftadaeth gael ei gwerthfawrogi, ei gofalu a'i chynnal i bawb, nawr ac yn y dyfodol. Dyna pam fel yr ariannwr mwyaf ar gyfer treftadaeth y DU rydym yn ymroddedig i gefnogi prosiectau sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth, fel y nodir yn ein cynllun strategol, [Treftadaeth 2033](#). Gall treftadaeth fod yn unrhyw beth o'r gorffennol y mae pobl yn ei werthfawrogi ac eisiau ei drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Rydym yn credu yng ngrym treftadaeth i danio'r dychymyg, cynnig llawenydd ac ysbrydoliaeth, ac i adeiladu balchder yn y lle a chysylltiad â'r gorffennol.

Dros y 10 mlynedd nesaf, ein nod yw buddsoddi £3.6 biliwn a godir ar gyfer achosion da gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i wneud gwahaniaeth pendant i bobl, lleoedd a chymunedau. [heritagefund.org.uk](https://www.heritagefund.org.uk)

Dilynwch @HeritageFundUK ar [Twitter/X](#), [Facebook](#) ac [Instagram](#) a defnyddiwch #NationalLottery #HeritageFund

Amgueddfa a Chymdeithas Hanesyddol Brynmawr

Am ragor o wybodaeth ewch i'n [gwefan](#) neu cysylltwch â **John Hill** – Ffôn 07886857686